

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036

CYFLENWAD TIR TAI

Medi 2023



PAPUR CEFNDIROL - PB9



Crynodeb Gweithredol

- i. Mae'r papur hwn yn un mewn cyfres a luniwyd gan Gyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Adnewydd (CDLIN) 2021-2036. Gellir darllen pob papur pwnc ar ei ben ei hun neu gyda'i gilydd i gael dealltwriaeth ehangach o sut mae'r polisiau a/neu'r dyraniadau yn y CDLIN wedi cael eu datblygu i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu Bro Morgannwg.
- ii. Diben y papur hwn yw nodi'r cyfraniad y bydd y cyflenwad tir tai presennol ym Mro Morgannwg yn ei wneud at gyflawni gofynion tai'r CDLIN o 7,890 o anheddau a gynigiwyd gan y Cyngor o fewn ei Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y cyfnod 2021-2036. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn cynnig gwneud darpariaeth ar gyfer lwfans o 10% i ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd i sicrhau bod y gofyniad yn cael ei gyflawni sy'n golygu darparu cyfanswm o 8,769 o anheddau.
- iii. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r ffynonellau amrywiol o gyflenwad tai a fydd yn cyfrannu at sicrhau'r ddarpariaeth hon a nodwyd. Mae'r papur yn nodi'r ddarpariaeth ganlynol:
 - Mae 785 o anheddau wedi'u cwblhau yn yr awdurdod ers rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2023 (h.y. ers dechrau'r cyfnod CDLIN)
 - Ar 1 Ebrill 2023 roedd 513 o anheddau yn cael eu hadeiladu.
 - Bydd 1,449 o anheddau yn cael eu darparu ar safleoedd tai gyda chaniatâd cynllunio cyfredol a safleoedd yn cael eu hadeiladu ar 1 Ebrill 2023.
 - Bydd 1,710 o anheddau'n cael eu darparu trwy safleoedd cynlluniau datblygu lleol mabwysiedig presennol, a
 - 1,603 o gyfraniadau anheddau o ddatblygiadau annisgwyl (h.y. datblygiadau tai heb eu dyrannu) dros oes y CDLIN.
- iv. Mae'r papur yn nodi y byddai'r ffynonellau uchod o gyflenwad tir tai yn y Fro yn cyfrannu rhyw 6,060 o anheddau at yr 8,769 o anheddau, a bod angen i'r CDLIN nodi safleoedd ychwanegol i ddarparu 2,619 o anheddau. Mae rhagor o fanylion am y safleoedd ychwanegol i ddiwallu'r angen hwn i'w gweld yn fersiwn ddrafft Strategaeth a Ffefrir CDLIN Bro Morgannwg.
- v. Yn olaf, mae'r papur yn rhoi asesiad o'r cyfraniad y bydd gan y CDLIN wrth ddarparu tai fforddiadwy dros gyfnod y cynllun ac mae'n nodi targed cychwynnol o 2,000 o gartrefi fforddiadwy i'w darparu trwy'r CDLIN. Bwriad y Cyngor yw ailystyried y targed hwn yn y Cynllun Adnau i ystyried cyfraniad dyraniadau Safle Allweddol a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir, a nodi safleoedd ychwanegol dan arweiniad tai fforddiadwy yn y Cynllun Adnewydd.



Cyngor Bro Morgannwg
Adfywio a Chynllunio
Swyddfa'r Doc
Dociau'r Barri
Y Barri CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

